1

Welsh

A D R O D D I A D

Y

SWYDDOG MEDDYGOL

AR

GYFLWR IECHYD

DOSBARTH DINESIG LLANGEFNI

AM Y FLWYDDYN

1968

GAN GORFFORI ADRODDIAD

Y

SWYDDOG IECHYD

JOHN GRIFFITHS, M.R.S.H., M.A.P.H.I.

Cadeirydd a Chynghorwyr Cyngor Dinesig Llangefni.

Mr. Cadeirydd, Boneddigesau a Boneddigion,

Mae'n anrhydedd gennyf gyflwyno fy neunawfed adroddiad ar iechyd cyhoeddus y dref am y flwyddyn 1968.

Mae poblogaeth y dref yn dal i gynnyddu yn gyson. Yn ystod y flwyddyn 1950 cafwyd adroddiad swyddogol cyffelyb i hon a diddorol yw sylwi fod rhif poblogaeth yr adeg hynny yn 2,157. Anodd yw dodi barn sefydlog a chywir ar faint y rhif yn ystod yr ugain mlynedd nesaf, neu yn wir at ddiwedd y ganrif ag sydd yn brysur agoshau. Os daw mwy o ddiwydiant a masnach i'r dref a'r cylch daw'n sicr gynnydd mewn poblogaeth, yn glwm i hyn daw ceisiadau am gartrefi. Teimlir fod y Cyngor hwn yn effro i hyn oll ac y byddant yn ymresymu anghenion tai gyda golwg ar rif poblogaeth yn y dyfodol.

Fe gofrestrwyd 63 o enedigaethau, ychydig yn llai na'r llynedd.

Bu 130 farw yn Llangefni yn ystod 1968, mae hyn yn cynnwys marwolaethau yn y ddwy ysbyty. Allan o'r ffigwr yma bu 35 o bobl Llangefni farw yn y Sir a 15 tu allan mewn ysbytai yn y Siroedd eraill.

Fe gofrestrwyd dau gyda'r T.B., bachgen 14 oed a merch 34 oed.

Ni fu un haint o'i fath ymysg plant y dref, 'roedd 14 gyda'r Frech Goch a 3 gyda'r Pas. Disgwylir i'r ddau yma fyned yn llai yn y dyfodol gyda'r buchfrechiadau newydd.

Fe gydnabyddir cyd-weithrediad Meddygon teuluaidd a'r gweinyddesau i greu safon boddhaol yn iechyd trigolion y dref.

Hefyd y Masnachwyr am gyd-weithio i gadw safon trefn a glendid yn foddhaol. Gobeithir y gwanant ddal yn eu hymdrech fel y boddlonnir y cyhoedd ac ni cheir cwyn.

Dymunaf ddiolch i'r Clerc a'i gyd-swyddogion, Cadeiryddion, Aelodau Pwyllgorau Iechyd a Thai am eu cyd-weithrediad dymunol.

Ydwyf,

Eich Ufudd Was,

W. ARTHUR JONES.

Swyddog Meddygol Iechyd.

Dyfyniadau o Ystadegau Bywyd ac Iechyd

YSTADEGAU CYFFREDINOL

Aceri Arwynebedd	2,510.
Amcangyfrif y Cofrestrydd Cyffredinol o'r boblogaeth ynghanol y flwyddyn 1968.	3,490.
Cyfrifiad Poblogaeth 1967.	3,390.
Rhif tai Cyngor.	735.
Rhif tai preswyledig.	1,180.
Gwerth mewn treth.	£119,274.
Swm cynnyrch o dreth geiniog.	£452.

YSTADEGAU BYWYD

Genedigaethau Bywanedig

	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Cyfreithlon	31.	28.	59.
Anghyfreithlon	1.	3.	4.
	32.	31.	63.

Graddeg genedigaethau yn ol y fil o amcangyfrif y boblogaeth oedd 18.0. Graddeg genedigaethau am y flwyddyn 1963 - 26.8; 1964 - 19.39; 1965 - 20.72; 1967 - 20.1. Graddeg genedigaethau y Sir oedd 18.7; Cymru a Lloegr 16.9.

Graddeg genedigaethau gosodedig Llangefni am 1968 oedd 16.6.

Genedigathau Marwanedig

2 Gwryw.

Graddeg marwanedig Llangefni oedd 0.57. Graddeg marwanedig y Sir yn ol y fil o'r genedigaethau (bywanedig a marwanedig) oedd 30.7; Cymru a Lloegr 14.0. Graddeg marwanedig yn ol y fil o amcangyfrif y boblogaeth oedd - Sir Fon 0.25; Cymru a Lloegr 0.25.

Marwolaeth (Pob oed)

Cyfanswm - 50.

Graddeg marwolaethau yn ol y fil o amcangyfrif y boblogaeth oedd 14.3. Graddeg am y flwyddyn 1964 - 10.9; 1965 - 11.1; 1966 - 9.3; 1967 - 13.3. Marwolaeth gosodedig Llangefni am 1968 oedd 13.8. Sir Fon 12.7.

Marwolaeth Mamol

Dim un.

Graddeg Marwolaeth Babanod o dan flwydd oed

Dim un.

Digitized by the Internet Archive
in 2016 with funding from
Wellcome Library

https://archive.org/details/b28855504

Graddeg Marwolaeth Babanod o dan fis oed

Dim un.

Achosion marwolaeth gyda'r nifer yn y dosbarth dinesig

		Gwryw	Benyw
1.	Tuberculosis of Respiratory System	1	-
2.	Malignant Neoplasm - Stomach	-	2
3.	Malignant Neoplasm - Lung, Bronchus	2	-
4.	Malignant Neoplasm - Breast	-	1
5.	Leukaemia	-	1
6.	Diabetes Mellitus	-	2
7.	Other Endocrine etc. Diseases	1	-
8.	Other Diseases of Nervous System etc.	-	1
9.	Hypertensive Disease	1	3
10.	Ischaemic Heart Disease	9	4
11.	Other forms of Heart Disease	4	2
12.	Cerebrovascular Disease	1	4
13.	Other Disease of Circulatory System	3	2
14.	Other Disease of Digestive System	-	1
15.	Hyperplasia of Prostate	2	-
16.	Other Disease, Genito-Urinary System	1	1
17.	Congential Anomalies	-	1
		25.	25.

Ataliad a rheolaeth Clefydau Heintus

Clefydau nodedig (ar wahan i Ddarfodedigaeth)

Frech Goch	14
Pas	3

Darfodedigaeth

Hysbyswyd fel a ganlyn :-

Oed	Rhyw	Ysgyfaint neu Di-Ysgyfaint
14.	G.	Ysgyfaint.
34.	B.	Ysgyfaint.

Imiwnio yr erbyn Diptheria, Tetanus a'r Pas

Cafodd 101 o blant eu himiwnio am y tro cyntaf yn erbyn "Diptheria" yn ystod 1968; 101 ei himiwnio yn erbyn y Pas a 103 ei himiwnio yn erbyn "Tetanus".

Buchfrechiad yn erbyn y Frech Wen

Cafodd 36 o bobl eu buchfrechu am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn, a 16 eu hail fuchfrechu.

Buchfrechiad yn erbyn Darfodedigaeth

Mae'r buchfrechiad B.G.C. yn cael ei roddi gan Swyddog Meddygol Arbennig i'r ysgyfaint ac yn cyd-weithredu a Meddyg y Sir. Mae'r cynllun yn gofalu y caiff pob baban a enir i gartref lle mae darfodedigaeth yno y buchfrechiad fel amddiffyniad rhag y clwy. Hefyd caiff y rhai sydd mewn cyffyrddiad a'r cleifion y buchfrechiad yma.

ADRODDIAD YR AROLYGYDD IECHYD AM Y FLWYDDYN 1968.

AI :

a) Tai Cyngor :

Adeiladwyd deuddeg a deugain o dai ar safle Felin Graig yn ystod y flwyddyn; ugain tŷ gyda dwy ystafell gysgu, a'r gweddill yn cynnwys tair.

Pedwar tŷ dros dro yn unig oedd yn aros ar safle Bron y Graig ar derfyn y flwyddyn.

Nifer y tai Cyngor oedd 735, fel a ganlyn :-

	4 Lloft	3 ystafell wely.			Dwy Ystafell wely	Un Ystafell wely	Un Ystafell	Sylwadau
		Heb Barlwr	Parlwr	Ty unllawr				
Clwch		6.	4.					
Tai Dinas			8.					
Ucheldre		14.	16.		12.			+ Rhif 43/44 Cartref Plant.
Isgraig	2.		24.		18.			
Ger y Graig					9.	28.		+ Ystafell Ymwelwyr
Bron y Graig					4.			
Stryd y Bont			12.					
Maeshyfryd	4.		36.					Rhif 12 - Ty'r Heddlu
Dolafon	8.		18.		10.			
Swn yr Afon					2.			
Bron y Felin	2.		20.					
Corn Hir			12.					
Pennant	7.	18.	35.		8.			Rhif 11 - Ty'r Heddlu
Capel Uchaf					12.			
Pencraig		76.	71.	1.	28.			
Bro Tudur	2.	43.	20.		5.			
Ffordd Talwrn	2.	12.	2.					
Plas Tudur					20.	6.		
Glan Cefni					3.	17.	8.	+ Ystafell Ymwelwyr
yn Pandy		18.						
Felin Graig			32.		20.			
Cyfanswm	27.	187.	310.	1.	151.	51.	8.	

Y mae gan y Cyngor hefyd 6 o fflatiau ym Mhlas Pencraig a chwe tŷ arall sef :- Pencraig Gardens, Pencraig Lodge, Felin Graig, Penrhos a Phenrorsedd.

b) Tai Preifat :

Bu ychwanegiad o 22 yn rhif y tai preifat newydd yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â 43 yn ystod 1967.

Gwelliannau :

Preifat gyda chymorthdāl :

Talwyd chwe cymorthdāl i wella tai eleni eto, a thri ohonynt yn gymorthdāl llawn o £400. Llawenhawn yn y ffaith fod y duedd yma yn parhau o fewn y rhannau hynny o'r dref sydd wedi ei nodi gan y Cyngor fel rhannau aeddfed i'w datblygu.

Deddf Rhent, 1957 - Tystysgrif Cywair Drwg :

Ni wnaed un cais am dystysgrif felly i'r Cyngor.

Deddfau Tai :

Ni chafwyd achos i ddefnyddio rhybudd ffurfiol o dan y deddfau hyn.

WYD :

i) Tai Lladd :

By Tŷ Lladd newydd y Cyngor yn wag ar ôl i'r achosion o glwyf y Traed a'r Genau ddirwyn i ben diwedd Ionawr. Yn ystod y mis hwnnw fe laddwyd 287 o wartheg, 8 llo, a 7 o ddefaid yno.

Nifer yr anifeiliaid eraill a laddwyd o fewn y dosbarth :-

Gwartheg	-	1114.
Lloi	-	22.
Moch	-	2619.
Defaid	-	9282.

Cig anaddas i'w fwyta :-

	Gwartheg	Lloi	Moch	Defaid
Ysgerbydau (cyfan)	4.	4.	26.	28.
Ysgerbydau (rhan)	6.	-	17.	7.
Ieuau	637.	-	47.	530.
Ysgyfaint	38.	-	100.	-
Pennau a thafodau	6.	-	16.	-
Calonnau	7.	-	36.	-
Arennau	-	-	2.	1.
Plyciau	-	-	184.	70.

Bwyd Anaddas :-

Derbyniwyd swm sylweddol o fwyd tun anaddas yn ystod y flwyddyn, a chladdwyd hwy yn nhomen ysbwriel y Cyngor.

LANWEITHDRA :

Nifer y siopau sydd yn gwerthu bwyd :-

Cigyddion	5.
Groseriaid a Siopau Ffrwythau ...	14.
Siopau Teisennau a Melysion ...	8.
Poptai	4.
Tai bwyta a Gwestai	10.
Masnachdai a gofrestrwyd dan Adran 16 o'r Ddeddf Bwyd	3.
Masnachdai a gofrestrwyd i werthu Hufen Ia.	20.
Masnachdai a gofrestrwyd i ffrio pysgod	3.

Bu cryn anfoddlonrwydd ynglyn â safon glanweithdra yn un tŷ bwyta ond bu newid trwyadl mewn rheolaeth a safon ar derfyn y flwyddyn. Mae galw am arolygaeth gyson mewn achos neu ddau arall lle mae'r safon yn isel.

Hoffem weled uwch safon yn rheoli yn y fasnach agored ar ddydd Iau. Edrychwn ymlaen at y dydd y bydd pob stondin bwyd o dan dô.

Nid oes ffatri cywion ieir yn y dosbarth.

DIFA LLYGOD :

	Natur yr eiddo	
	Nid Amaethyddol	Amaethyddol
EIDDO ARWAHAN I GARTHFFOSYDD :		
1. Nifer yr eiddo yn y dosbarth.	1616.	27.
2. (a) Cyfanswm yr eiddo a archwiliwyd wedi derbyn cwynion.	103.	-
(b) Nifer lle'r oedd llygod yn bla. :-		
(i) Llygod mawr	92.	-
(ii) Llygod bach	11.	-
CARTHFFOSYDD :		
3. A gafwyd pla mewn carthffosydd yn ystod y flwyddyn?	Naddo.	

Gwenwynwyd yn ôl y galw gan weithiwr rhan-amser y Cyngor.

DEDDF FFATRIOEDD :

Eiddo	Nifer	Nifer		
		Ymweliadau	Rhybuddion	Erlyniadau
(1) Adrannau 1,2,3,4 a 6 yn gyfrifoldeb y Cyngor.	-	-	-	-
(2) Adran 7 yn gyfrifoldeb y Cyngor.	22.	22.	2.	-
(3) Eiddo arall.	3.	3.	-	-
Cyfanswm	25.	25.	2.	-

Yn y ddau achos lle'r anfonwyd rhybuddion yr oedd y cyfleusterau ceudai yn annigonol ac yn anfoddhaol.

EDDF SWYDDFEYDD, SIOPAU AC EIDDO RHEILFFORDD :

bl "A" - Cofrestru ac Archwiliadau Cyffredinol

Natur yr Eiddo	Nifer a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn	Cyfanswm yr eiddo a gofrestrwyd ar ddiwedd y flwyddyn	Nifer yr Archwiliadau Cyffredinol
Swyddfeydd	-	29.	16.
Siopau yn manwerthu	-	56.	5.
Eiddo cyfanwerthwyr	-	4.	-
Tai bwyta	-	6.	-
Lleoedd cadw tanwydd	-	-	-
Cyfanswm	-	95.	21.

ble "B"

Nifer ymweliadau o bob math gan yr Arolygydd a'r eiddo uchod = 253.

Tabl "C" - Dadansoddiad o'r nifer personnau a gyflogir

Natur yr Eiddo	Nifer a gyflogir
Swyddfeydd	211.
Siopau yn manwerthu	166.
Eiddo cyfanwerthwyr	12.
Tai bwyta (agored)	28.
Lle bwyta (preifat)	-
Lleoedd cadw tanwydd	-
Cyfanswm	417.
Cyfanswm dynion	217.
Cyfanswm merched	200.

ARTHFFOSIAETH :

Gorffenwyd y gwelliannau angenrheidiol yn y Gwaith Garthffosi, ond nid oedd yn effaith llawn yn amlwg hyd derfyn eithaf y flwyddyn wedi i'r hidlau newydd gael cyfle i aeddfedu.

Mae safle tai sydd heb fod yn gysylltiedig â'r garthffos gyhoeddus wedi dirywio'n fawr er pan gollwyd gwasanaeth cerbydau glanhau ceudai y Dosbarthiadau Gwledig cyfagos. Nid oes ateb boddhaol i geudai sydd yn gorlifo o fewn y Dosbarth Dinesig ac mae'n anodd iawn esbonio'r sefyllfa anfoddhaol i drethdalwyr. Nid ydym eto wedi llwyddo i ddod i gyd-ddealltwriaeth a'r y pwnc.

ASGLU A CHAEL GWARED O YSBWRIEL :

Mae'r gwasanaeth hwn yn parhau i gyfarfod anghenion y dosbarth heb ddod wyneb yn wyneb ag anhawsterau mawr. Bydd yn bryd i'r Cyngor ystyried adnewyddu'r cerbyd presennol yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf gan fod costau atgyweirio yn cynyddu'n gyflym. Mantais fyddai cael lle i gadw'r lori dan dō. Awgrymodd Swyddog o'r Swyddfa Gymreig y byddai yn fanteisiol i gyflogi dyn ar y domen yn barhaus i gadw rheolaeth ar y safle a rhoi gorchudd o bridd ar ben yr ysbwriel yn gyson.

. . . . . .